❖ Carol Nadolig

Na foed telyn ar yr helyg
Nac un tafod heddiw'n fud
Rhag clodfori enw'r Iesu
Ddaeth yn faban bach i'r byd;
Ym mhreswylfa'r gwaredigion
Sant a seraff sydd yn un
Yn cyhoeddi newydd eni
Ar y ddaear, Geidwad dyn.

Bu proffwydi a salmyddion
Yn hiraethu am y dydd, –
Dydd cyflawni addewidion,
Dydd o ras i'r caeth a'r rhydd;
Ac ym Methlehem Effrata,
Yng nghyflawnder amser Duw,
Trwy ufudd-dod Mair y Forwyn
Daeth Gwaredwr dynol-ryw.

Doed minteioedd yn ddiorffwys
I gael gweld y wyrth a wnaed,
Gan ddyrchafu enw'r Arglwydd
Ac ymostwng wrth ei draed;
Tuag yno teithiwn ninnau
Ar yr ŵyl dan wŷs y Nef,
Nid yw'r ffordd ymhell o unman
Yng ngoleuni'i Seren Ef.

T. Elfyn Jones